

# **Cyngor Dinas Casnewydd**

## **Cynnig Ad-drefnu Ysgolion**

### **Adroddiad Ymgynghori**

**Cynnig i sefydlu canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig yn Ysgol Uwchradd Llanwern o fis Medi 2023**

## **Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol:**

**23 Tachwedd 2022 – 6 Ionawr 2023**

### **Diben**

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion, Tachwedd 2018.

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn cynnwys yr adrannau a ganlyn:

- Y Cynnig
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Llais y dysgwr
- Sesiynau galw heibio
- Ymatebion i'r ymgynghoriad
- Ymateb Estyn
- Effaith ar y Gymraeg
- Aseiad o'r Cynnig
- Argymhellion
- Atodiadau

## Y Cynnig

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn ymwneud â chynnig i sefydlu canolfan Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd Llanwern ar gyfer disgyblion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) o fis Medi 2023.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Anfonwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol i'r rhanddeiliaid a amlinellir isod, ac anfonwyd dolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor drwy e-bost:

- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Disgyblion sy'n mynychu pob ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sydd wedi cael diagnosis o anhwylderau'r sbectrwm awtistig ac sy'n mynychu dosbarthiadau arbenigol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd yng Nghasnewydd;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n cael eu haddysgu ar hyn o bryd mewn dosbarthiadau ADY mewn ysgolion cynradd prif ffrwd;
- Aelodau o staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd ym mhob ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Awdurdodau lleol cyfagos ar draws ardal Consortiwm De-ddwyrain Cymru;
- Penaethiaid a chyrrff llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd
- Holl gynghorau cymuned Casnewydd
- Gweinidogion Cymru
- Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun i'r cynnig
- Awdurdodau lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafndiaeth perthnasol
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy
- Yr Archesgobaeth Gatholig
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff holl ysgolion Casnewydd
- Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent
- Comisiynydd y Gymraeg;
- Heddlu Gwent
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd
- SNAP Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent

- Gwasanaethau ataliol

### Ysgolion yr effeithir arnynt

Yr ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol arni yw **Ysgol Uwchradd Llanwern**.

### Dosbarthu Gwybodaeth

Yn ogystal â'r (prif) ddogfen ymgynghori ffurfiol, lluniwyd fersiwn gryno pob dydd ar gyfer plant a phobl ifanc a fersiwn sy'n ystyriol o'r rhai ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig hefyd, i helpu i sicrhau bod y broses ymgynghori yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb dan sylw. Roedd pob dogfen ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

Darparwyd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori lawn, fersiwn gryno pob dydd ar gyfer plant a phobl ifanc, a'r fersiwn sy'n ystyriol o'r rhai ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig i Ysgol Uwchradd Llanwern a'r chwe ysgol gynradd o fewn clwstwr Ysgol Uwchradd Llanwern (Ysgol Gynradd Alway, Ysgol Gynradd Eveswell, Ysgol Gynradd Llanmartin, Ysgol Gynradd Milton, Ysgol Gynradd Ringland ac Ysgol Gynradd Somerton) i fod ar gael i staff, disgyblion a rhieni.

Roedd modd gofyn am gopïau caled hefyd trwy anfon e-bost at [school.reorg@newport.gov.uk](mailto:school.reorg@newport.gov.uk), ac roedd y rhain ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, er na dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath.

Mae'r wybodaeth ymgynghori wedi'i rhannu ar dudalennau Facebook a Twitter Cyngor Dinas Casnewydd ac fe'i cynhwyswyd yn y Cylchlythyr i Breswylwyr ar 1 Rhagfyr 2022. Rhannwyd yr wybodaeth hefyd ar wefan Ysgol Uwchradd Llanwern.

## **Llais y dysgwyr**

Mae'r Cyngor yn awyddus i gael barn dysgwyr, a hwyluswyd hyn gyda disgyblion o Gyngor Ysgol Uwchradd Llanwern ar ddydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022. Ystyriwyd cynnal sesiwn llais y disgybl a fyddai'n cynnwys disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Fodd bynnag, gan y gall disgyblion sydd wedi cael diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig fod â lefelau uchel o orbryder ac yn cael trafferth ymdopi â newid, a gan bod y cynnig ond ar y cam ymgynghori ffurfiol, ni wnaethpwyd hyn. Os bydd y cynnig yn symud i'r cam nesaf, bydd hyn yn cael ei ailystyried.

Roedd y mynychwyr canlynol yn bresennol:

- Tua 35 o ddisgyblion
- Pennaeth yr ysgol
- Rheolwr Trawsnewid Addysg
- Dau Athro Ymgynghorol (ADY)
- Rheolwr ADY
- Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg
- Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol

Cyflwynodd swyddogion y Cyngor a oedd yn mynychu'r sesiwn eu hunain i'r disgyblion, ac arweiniwyd y sesiwn gan un o'r Athrawon Ymgynghorol ADY. I ddechrau, cafwyd trafodaeth am beth yw anhwylderau'r sbectrwm awtistig a sut y gall effeithio ar bobl. Yna esboniodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y cynnig i'r disgyblion. Yna cafodd y disgyblion gyfle i ofyn cwestiynau, a amlinellir yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Cwestiwn/Sylw	Ymateb y Cyngor
Pam symud y Ganolfan Dysgu Arbenigol i leoliad gwahanol?	Mae'r Ganolfan Dysgu Arbenigol yn rhywbeth sydd wedi'i greu'n anffurfiol gan yr ysgol i gefnogi grŵp o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd mae hon wedi ei lleoli mewn ardal o'r ysgol a sefydlwyd yn wreiddiol fel canolfan ADY ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Felly mae gan yr ardal hon y cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer y ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig arfaethedig, megis cegin benodol a thoiledau ac ati. Fodd bynnag, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd yr ysgol yn nodi ardal arall addas er mwyn medru adleoli'r Ganolfan Dysgu Arbenigol.
Gall y cynnig effeithio ar ddisgyblion sydd yn y Ganolfan Dysgu Arbenigol ar hyn o bryd, ac felly mae angen i'r Ganolfan Dysgu Arbenigol gael ei ail-greu mewn man arall yn yr ysgol.	Mae'r Cyngor a'r ysgol ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau ar gyfer adleoli'r ddarpariaeth hon i sicrhau y gall yr ysgol barhau i ddiwallu anghenion y grŵp hwn o ddysgwyr.

Rhoddyd cyfle i'r disgyblion gwblhau copiâu caled o'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn ystod y sesiwn, a derbyniwyd 20 o ymatebion o ganlyniad. Codwyd nifer o sylwadau tebyg gan y disgyblion, a chrynoir y rhain isod. Fodd bynnag, roedd yr holl ymatebion yn cefnogi'r cynnig.

- Cyfle da i gynyddu cefnogaeth i ddisgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig;
- Mae angen cymorth ychwanegol a gofod addysgu ar blant ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig;
- Gallai'r ddarpariaeth newydd leihau achosion o fwlio;
- Bydd y ganolfan yn cynnig amgylchedd diogel i ddisgyblion a allai gael eu gorlethu fel arall;
- Mae angen adleoli'r Ganolfan Dysgu Arbenigol bresennol yn rhywle arall yn yr ysgol i leihau unrhyw effaith ar y grŵp hwn o ddysgwyr.

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i'r staff a'r disgyblion a gymerodd ran yn y sesiwn hon a hoffai ddiolch iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r broses ymgynghori hon.

## Sesiynau galw heibio

Hwylusodd y Cyngor ddwy sesiwn galw heibio fel yr amlinellir ar y dudalen nesaf, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r rhain ar wefan y Cyngor ac yn yr holl ohebiaeth a'r dogfennau'n ymwneud â'r cynnig. Roedd y sesiynau galw heibio yn gyfle i fynychwyr ofyn cwestiynau ac i swyddogion y Cyngor egluro'r cynnig yn fanylach.

<b>Tabl 1: Sesiynau galw heibio</b>		
<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad ac amser</b>	<b>Sesiwn</b>
<b>Ysgol Uwchradd Llanwern – Y Brif Neuadd</b>	Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022 9.15am – 10.30am	Galw heibio
<b>Ysgol Uwchradd Llanwern – Neuadd Ddarlithio</b>	Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2022 3.15pm – 4.30pm	Galw heibio

### Sesiwn Galw Heibio 1 – Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022

Mynychwyd y sesiwn galw heibio gyntaf, a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Llanwern, gan ddeg rhanddeiliad, yn cynnwys rhieni a gofalwyr, y Pennaeth a staff a gyflogir yn yr ysgol, a llywodraethwyr, ac fe'i cefnogwyd gan y chwe swyddog canlynol o'r Gwasanaeth Addysg:

- Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Adnoddau
- Rheolwr ADY
- Rheolwr Trawsnewid Addysg
- Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg
- Dau Athro Ymgynghorol (ADY)

Mynegodd y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol bryderon y byddai'r cynnig yn golygu cau'r Ganolfan Dysgu Arbenigol bresennol yn yr ysgol, ac y byddai hyn yn golygu bod y disgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd yn dychwelyd i ddsbarthiadau mawr y brif ffrwd. Eglurodd y swyddogion oedd yn bresennol nad oedd hyn yn wir, ac y byddai angen i'r Ganolfan Dysgu Arbenigol bresennol gael ei hadleoli o fewn yr ysgol. Eglurodd y swyddogion hefyd fod y Cyngor yn ystyried bod digon o le yn adeilad presennol yr ysgol i hwyluso hyn. Mynegodd rhanddeiliaid eu rhwystredigaeth a'u pryder nad oedd y cynnig yn cynnwys ateb ar gyfer adleoli'r Ganolfan Dysgu Arbenigol. Holodd un o'r llywodraethwyr a oedd yn bresennol am ddilysrwydd y broses ymgynghori hefyd, ond cadarnhaodd swyddogion bod y broses yn cael ei chynnal yn gwbl unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Atebwyd yr holl gwestiynau a godwyd yn ystod y sesiwn gan y swyddogion a oedd yn bresennol, a pharatowyd dogfen Cwestiynau Cyffredin yn dilyn hyn a'i chyhoeddi ar y dudalen we berthnasol ar wefan y Cyngor. Mae'r ddogfen hon wedi'i chynnwys yn Atodiad A yr Adroddiad Ymgynghori hwn.

Roedd copïau caled o bob fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn y sesiwn. Cynigiwyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad hefyd i bawb a fynychodd, er na chwblhawyd yr un ohonynt yn ystod y sesiwn.

## Sesiwn Galw Heibio 2 – Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2022

Cynhaliwyd yr ail sesiwn galw heibio hefyd yn Ysgol Uwchradd Llanwern a mynychodd 16 o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni a gofalwyr (yn bennaf rhieni a gofalwyr disgyblion sy'n defnyddio'r Ganolfan Dysgu Arbenigol yn anffurfiol ar hyn o bryd), pennaeth yr ysgol a staff a gyflogir yn yr ysgol, a llywodraethwyr, ochr yn ochr â'r swyddogion canlynol o Wasanaeth Addysg y Cyngor:

- Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Adnoddau
- Rheolwr ADY
- Rheolwr Trawsnewid Addysg
- Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg
- Dau Athro Ymgynghorol (ADY)

Roedd mwyafrif yr unigolion a fynychodd y sesiwn yn bryderus iawn ac yn anhapus. Daeth yn amlwg bod rhieni a gofalwyr yn arbennig o'r farn bod y cynnig yn ymwneud â chau'r Ganolfan Dysgu Arbenigol anffurfiol bresennol, yn hytrach na sefydlu canolfan ffurfiol ar gyfer disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig, ac adleoli'r Ganolfan Dysgu Arbenigol wedi hynny. O ganlyniad bu'n anodd iawn i'r swyddogion a oedd yn bresennol ateb y cwestiynau a ofynnwyd iddynt.

Mae'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn, ac ymatebion y Cyngor, i'w gweld yn y tabl canlynol:

Sylw/Cwestiwn	Ymateb y Cyngor
Pa ddarpariaeth amgen fydd yn yr ardal lle mae'r Ganolfan Dysgu Arbenigol ar hyn o bryd?	Bwriad y cynnig hwn yw creu Canolfan Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig arbenigol newydd ag 20 lle er mwyn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ar draws dinas Casnewydd.
Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, a fyddai disgyblion y Ganolfan Dysgu Arbenigol presennol yn cael eu rhannu a'u cymysgu â disgyblion prif ffrwd mewn dosbarthiadau prif ffrwd?	Penderfyniad i'r ysgol fyddai hwn, ond credwn y gallai'r Ganolfan Dysgu Arbenigol symud i ardal arall o'r ysgol yn hytrach na chynnwys y disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd.
A fyddai modd ail greu'r Ganolfan Dysgu Arbenigol mewn man arall yn Ysgol Uwchradd Llanwern?	Mae'n bosibl y byddai'r Ganolfan Dysgu Arbenigol yn cael ei hadleoli i ardal arall o'r ysgol. Mae tîm arweinyddiaeth yr ysgol a swyddogion y Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried y lleoliad mwyaf addas ar gyfer hyn.
A fydd cyllid ar gael gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanwern i ail-greu'r Ganolfan Dysgu Arbenigol yn yr ysgol?	Ni ddylai sefydlu'r ganolfan arfaethedig olygu bod yn rhaid i'r ysgol ariannu newidiadau ffisegol i'r adeilad. Bydd yr awdurdod lleol yn ceisio talu am unrhyw gostau o'r fath.
Beth yw'r meini prawf ar gyfer y disgyblion a fydd yn defnyddio'r ganolfan arfaethedig ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig?	Disgwylir i'r ganolfan ddarparu ar gyfer disgyblion sydd wedi cael diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig nad ydynt

	yn gallu cael mynediad i addysg brif ffrwd gyda chymorth oedolion. Wrth gychwyn blwyddyn 7, byddai disgyblion yn bennaf ar radd 7 y Raddfa-P, Lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol.
A all rhieni apelio yn erbyn y penderfyniad os ydynt yn ystyried bod y Ganolfan Dysgu Arbenigol yn anaddas ar ôl iddi gael ei hadleoli?	Os yw rhiant plentyn ag ADY yn anfodlon â'r ddarpariaeth y mae ei blentyn yn ei chael yn yr ysgol, gellir gofyn am adolygiad interim. Yn yr achos hwn, byddai'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r ysgol i ddatrys unrhyw bryderon.

Roedd copïau caled o bob fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn y sesiwn. Cynigiwyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad hefyd i bawb a fynychodd, er na chwblhawyd yr un ohonynt yn ystod y sesiwn.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad


Derbyniwyd cyfanswm o 99 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Derbyniwyd 97 o ymatebion drwy'r ffurflen ymateb (gweler Atodiad B) ar-lein a thrwy gopïau caled, oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys:

- Rhieni/gofalwyr
- Aelodau teuluoedd a ffrindiau
- Preswylwyr Casnewydd
- Pobl â phrofiad arbenigol o awtistiaeth
- Gweithiwr yr awdurdod lleol
- Staff a gyflogir yn Ysgol Uwchradd Llanwern
- Penaethiaid a staff a gyflogir mewn ysgolion eraill yng Nghasnewydd
- Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Llanwern
- Disgyblion Ysgol Uwchradd Llanwern

Derbyniwyd hefyd ddau ymateb ysgrifenedig trwy e-bost gan undeb llafur ysgolion a gan Estyn (Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru).

*'A ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu canolfan ADY ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd Llanwern i ddisgyblion gydag ASA o fis Medi 2023 ymlaen?'*



Roedd 72 allan o 97 o ymatebwyr (74%) yn cefnogir cynnig, gyda llawer o'r ymatebion hefyd yn rhoi sylwadau bod y ddarpariaeth ychwanegol yn hanfodol i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu penodol ac y byddai'r cynnig o fudd i'r gymuned leol.

Roedd pump allan o 97 o ymatebwyr (5%) yn cefnogi'r cynnig yn rhannol, ond yn nodi'r canlynol:

- nad oedd y ddarpariaeth arfaethedig yn ddigonol,
- dylai'r Cyngor hefyd ystyried darpariaeth addas ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol eraill, ac
- ni ddylai'r cynnig arwain at symud dysgwyr sydd yn y Ganolfan Dysgu Arbenigol ar hyn o bryd i ddosbarthiadau prif ffrwd.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod anghysondeb ar hyn o bryd rhwng darpariaeth ADY Cynradd ac Uwchradd ac mae'r Ganolfan ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig y bwriedir ei sefydlu yn Ysgol Uwchradd Llanwern yn gydnabyddiaeth o hyn ac yn gam tuag at sicrhau bod darpariaeth uwchradd ehangach ar gael.

Mae dadansoddiad o ddata'r awdurdod lleol dros y pum mlynedd diwethaf wedi dangos poblogaeth sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig sy'n gynyddol gymhleth. O'r herwydd, mae'r awdurdod lleol wedi ymrwmo i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y rhai ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn y ddinas yn adlewyrchu'r galw cynyddol er mwyn diwallu anghenion y mwyafrif o ddisgyblion yn y ddinas yn briodol, heb yr angen am leoliadau y tu hwnt i ffiniau'r sir. Mae'r awdurdod lleol yn adolygu dadansoddiad y tueddiadau a ddangosir gan ddata yn barhaus i lywio penderfyniadau yn y dyfodol o ran darpariaeth ADY yng Nghasnewydd.

Mae'r cynnig i sefydlu canolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig arbenigol newydd yn ychwanegol at y cyfleuster anffurfiol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd yn y Ganolfan Dysgu Arbenigol. Byddai'r ardal arfaethedig yn Ysgol Uwchradd Llanwern ar gyfer canolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn golygu adleoli'r Ganolfan Dysgu Arbenigol i ardal arall o'r ysgol yn hytrach na chynnwys disgyblion yn y dosbarthiadau prif ffrwd.



Nid oedd 20 o'r 97 o ymatebwyr (21%) yn cefnogi'r cynnig; cynigiodd rhai o'r rhain safbwyntiau a chwestiynau ychwanegol, sydd wedi'u hamlinellu isod a thros y dudalen:

Sylw/Cwestiwn	Nifer y Sylwadau Tebyg	Ymateb y Cyngor
Ni ddylai fod yn rhaid i ddisgyblion sy'n defnyddio'r Ganolfan Dysgu Arbenigol ar hyn o bryd ddychwelyd i'r brif ffrwd i hwyluso sefydlu'r ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig gan fod ganddyn nhw eu hunain anghenion cymhleth iawn ac ni fyddant yn ymdopi mewn lleoliad prif ffrwd.	8	Mae'r cynnig i sefydlu canolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig arbenigol newydd yn ychwanegol at y cyfleuster presennol a ddarperir gan yr ysgol yn y Ganolfan Dysgu Arbenigol. Byddai'r ardal arfaethedig o fewn Ysgol Uwchradd Llanwern ar gyfer y ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn golygu adleoli'r Ganolfan Dysgu Arbenigol i ardal arall o'r ysgol yn hytrach na chynnwys y ganolfan fel rhan o'r ystafelloedd dosbarth prif ffrwd.
Bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar y disgyblion sydd wedi'u lleoli yn y Ganolfan Dysgu Arbenigol ar hyn o bryd.	3	Mae'r cynnig i sefydlu canolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig arbenigol newydd yn ychwanegol at y cyfleuster presennol a ddarperir gan yr ysgol yn y Ganolfan Dysgu Arbenigol. Byddai'r ardal arfaethedig o fewn Ysgol Uwchradd Llanwern ar gyfer y ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn golygu adleoli'r Ganolfan Dysgu Arbenigol i ardal arall o'r ysgol yn hytrach na chynnwys y ganolfan fel rhan o'r ystafelloedd dosbarth prif ffrwd.
Nid yw'r cynnig yn gynhwysol a bydd yn hytrach yn gwahanu pobl ifanc ag awtistiaeth oddi wrth addysg brif ffrwd. Gellid defnyddio cyllid yn well i hyfforddi staff ym mhob ysgol i ddeall yr anghenion, y gofynion a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag awtistiaeth yn well er mwyn helpu i atal gwaharddiadau a/neu helpu rhieni sy'n dewis addysgu yn y cartref.	1	Er mwyn darparu cymorth i ddysgwyr ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig sy'n gweithredu ar lefel uchel, mae'r awdurdod lleol yn buddsoddi mewn hyfforddiant ychwanegol i staff ysgol er mwyn uwchsgilio'r staff a sicrhau bod pob lleoliad yn rhoi cymorth priodol ar waith ar gyfer dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cymorth gan y Gwasanaethau Ymgynghorol Seicoleg Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gyfer ystod eang o ymyriadau lle mae disgyblion yn profi lefelau uchel o orbryder ac yn Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol (EBSA), i sicrhau nad yw disgyblion yn ymddieithrio o'u lleoliad ysgol ac yn cael eu gwerthfawrogi o fewn amgylchedd ysgol gynhwysol.
Pam mai Ysgol Uwchradd Llanwern sydd wedi'i nodi i gynnal y ddarpariaeth newydd hon?	1	Mae Ysgol Uwchradd Llanwern wedi'i chynnig i gynnal y ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig gan fod pob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg arall yng Nghasnewydd yn llawn. Mae gan Ysgol Uwchradd Llanwern eisoes ofod priodol wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer y ganolfan newydd hon, gan fod darpariaeth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol wedi'i leoli yno'n flaenorol. Bydd hyn yn

		<p>galluogi bod ardal ddiogel sydd ar wahân i adeilad yr ysgol yn medru cael ei darparu ar gyfer y disgyblion hyn, gyda mynedfa ar wahân briodol a chyfleoedd i neilltuo / gweithio mewn grŵp bach yn y gofodau dosbarth sydd ar gael, yn ogystal â datblygu sgiliau byw'n annibynnol yn yr ardal oedd cegin.</p> <p>Mae darpariaeth anhwylderau'r sbectrwm awtistig bresennol yr awdurdod lleol yn Ysgol John Frost hefyd yn darparu lle ar gyfer 20. Bydd y ganolfan sy'n cael ei chynnig yn Ysgol Uwchradd Llanwern yn sicrhau bod darpariaeth deg ar gael yn Nwyrain a Gorllewin y Ddinas.</p>
--	--	--

Derbyniwyd sylwadau anffafriol hefyd trwy e-bost gan lywodraethwr Ysgol Uwchradd Llanwern a ofynnodd am ragor o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei hariannu, yn enwedig yr effaith ar Ysgol Uwchradd Llanwern pe bai costau'n fwy na'r amcangyfrif o £500,000 y flwyddyn, a ph'un a oedd cyfleusterau digonol gan yr ysgol ar gyfer y staff ychwanegol y byddai angen eu cyflogi i gefnogi'r ddarpariaeth arfaethedig.

*Mewn ymateb, gall y Cyngor gadarnhau bod ysgolion yn derbyn cyllid atodol i gefnogi canolfannau ADY yn ogystal â chyllid priif ffrwd fesul disgybl. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn adlewyrchu'r gost ychwanegol o ddarparu lefelau uwch o staffio. Y gymhareb staff/disgybl arfaethedig ar gyfer y sylfaen fyddai 2:10 ac mae'n seiliedig ar athro/athrawes ar frig y raddfa ynghyd â lwfansau priodol, a dau Gynorthwydd Dysgu (un ar Lefel 3 ac un ar Lefel 2). Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gymhareb ariannu, y Pennaeth, fodd bynnag, fyddai'n gyfrifol am bennu lefel staffio briodol bob blwyddyn yn unol â'r nifer yn y garfan ddisgyblion berthnasol wrth i'r ddarpariaeth dyfu. Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod digon o staff hyd nes y bydd y ganolfan wedi datblygu'n llawn, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyllideb yr ysgol.*

<b>Nifer disgyblion</b>	<i>Nifer Athrawon</i>	<i>Nifer cynorthwywyr dysgu lefel 2</i>	<i>Nifer cynorthwywyr dysgu lefel 3</i>	<b>Cyfanswm Staff</b>
<b>10</b>	2	2	2	<b>6</b>
<b>20</b>	4	4	4	<b>12</b>

*O ran adeilad yr ysgol, mae gan Ysgol Uwchradd Llanwern le i 1450, a chyfleusterau ar gyfer staff sy'n gymesur â'r nifer hwnnw. Gan fod llai na 1000 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd mae'r cyfleusterau yn fwy na digonol ar gyfer y cynnydd yn nifer y staff a ddisgwylir o ganlyniad i'r cynnig hwn.*

Roedd yr ymateb a dderbyniwyd gan undeb llafur ysgolion yn cefnogi'r cynnig, ond yn nodi bod angen cynllunio priodol o amgylch anghenion dysgwyr, staffio priodol a dysgu

proffesiynol, a chyllid digonol. Mae ymateb y Cyngor i'r pwyntiau hyn eisoes wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori hwn neu fe gyfeirir ato yn yr adran ganlynol.

## Ymateb Estyn

Mae'r ymateb llawn gan Estyn wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, i grynhoi, mae'r ymateb yn datgan bod y bwriad yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal, o leiaf.

Mae Estyn yn nodi 'yn gyffredinol, mae llawer o rinweddau i'r cynnig i ad-drefnu'r ysgolion er mwyn sefydlu canolfan arbenigol ag 20 lle i ddisgyblion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Uwchradd Llanwern o fis Medi 2023 ymlaen', gan gynnwys y canlynol:

- Mae data a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn dangos galw clir am ddarpariaeth anhwylderau'r sbectrwm awtistig arbenigol yng Nghasnewydd, yn enwedig o Flwyddyn 7 i fyny. Mae'r ddarpariaeth arbenigol bresennol o fewn yr awdurdod lleol wedi cyrraedd y capasiti (neu yn fwy na'r capasiti presennol) a bod model twf y cynnig;
- Mae pump lle Blwyddyn 7 newydd bob blwyddyn am bedair blynedd, wedi'i ystyried yn dda ac yn gyraeddadwy;
- Mae gan Ysgol Uwchradd Llanwern gapasiti i gynnal darpariaeth o'r fath gan ei bod wedi bod yn gweithredu o dan ei chapasiti mesuredig ers sawl blwyddyn;
- Byddai'n arwain at ddarpariaeth deg yn nwyrain a gorllewin y ddinas fel bod disgyblion yn gallu mynychu ysgol sy'n fwy lleol i'w cartref gan leihau costau cludiant;
- Gellid sefydlu'r ddarpariaeth newydd arfaethedig mewn man a ddyluniwyd yn arbennig a oedd yn flaenorol yn gartref i ddarpariaeth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Mae'r lleoliad hwn yn elwa ar fynedfeydd ar wahân, sydd wedi'i hamgáu'n ddiogel, cyfleusterau bwyta a cheginau, toiledau pwrpasol, man chwarae yn yr awyr agored, ystafell synhwyraidd a man addas ar gyfer cludo i ollwng a chodi disgyblion yn union y tu allan i'r adeilad;
- Unwaith y bydd yn weithredol gan ddefnyddio'r capasiti yn llawn, bydd budd ariannol sylweddol o sefydlu'r ddarpariaeth newydd hon ac mae model ariannol cyffredinol y cynnig yn gadarn.

Fodd bynnag, mae'r ymateb yn mynd ymlaen i nodi 'Nid yw'r cynnig yn amlinellu nifer o feysydd allweddol lle y gellid cryfhau'r cynnig sef meysydd sy'n gysylltiedig â recriwtio staff, hyfforddi, a goruchwyllo' ac "nid yw'r cynnig yn amlinellu'n ddigon manwl sut y bydd yr ysgol yn cael ei chefnogi gan yr awdurdod lleol i weithredu'r ddarpariaeth anhwylderau'r sbectrwm awtistig newydd yn effeithiol".

*Mewn ymateb, byddai'r Cyngor yn cynghori y bydd cymorth allgymorth o Ysgol Bryn Derw yn cael ei flaenoriaethu pan fydd y ddarpariaeth arfaethedig yn agor – am bedwar diwrnod yr wythnos i ddechrau, gan leihau i ddau neu dri diwrnod yn ail hanner tymor yr hydref ac yna symud i un diwrnod yr wythnos ar ôl Nadolig 2024. Bydd hyn yn dibynnu ar y cynnydd a wneir a sgiliau a phrofiad y staff fydd yn cael eu penodi. Bydd mewnbyn cyson gan yr ysgol yn parhau yn y blynyddoedd dilynol wrth i garfan y disgyblion a'r tîm staff dyfu. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi staff ar y cyd ar draws y ddwy ysgol i gefnogi dysgu proffesiynol.*

Nododd Estyn hefyd nad yw'r cynnig yn cynnwys digon o wybodaeth am y strwythur staffio ar gyfer y ddarpariaeth, yn enwedig pwy fydd yn gyfrifol am weithrediad y ddarpariaeth o ddydd i ddydd, nifer y staff i'w penodi, ac unrhyw fanylion am y rolau penodol y byddai'r staff hyn yn eu cyflawni.

*Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, gall y Cyngor gadarnhau mai'r Pennaeth fydd yn gyfrifol am y gwaith o reoli'r ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn gyffredinol; fodd bynnag bydd y ddarpariaeth yn cael ei goruchwyllo'n uniongyrchol gan aelod o'r Uwch-dîm Arwain a fydd â chyfrifoldeb rheolwr llinell dros yr athro a benodir.*

*Y gymhareb staff/disgybl arfaethedig fyddai 2:10 ac mae'n seiliedig ar athro/athrawes ar frig y raddfa ynghyd â'r lwfansau priodol, a dau gynorthwydd dysgu (un ar Lefel 3 ac un ar Lefel 2).*

<b>Nifer disgyblion</b>	<b>Nifer athrawon</b>	<b>Nifer cynorthwywyr dysgu lefel 2</b>	<b>Nifer cynorthwywyr dysgu lefel 3</b>	<b>Cyfanswm staff</b>
<b>10</b>	<b>2</b>	<b>2</b>	<b>2</b>	<b>6</b>
<b>20</b>	<b>4</b>	<b>4</b>	<b>4</b>	<b>12</b>

*Mae'r tabl uchod yn dangos y gymhareb ariannu. Fodd bynnag, y Pennaeth fyddai'n gyfrifol am bennu lefel staffio briodol bob blwyddyn yn unol â'r nifer yn y garfan ddisgyblion berthnasol wrth i'r ddarpariaeth dyfu. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod digon o staff hyd nes y bydd y ganolfan wedi datblygu'n llawn, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyllideb yr ysgol.*

Nododd Estyn hefyd, er bod y cynnig yn cyfeirio at hyfforddiant staff, yn bennaf adeg penodi a sefydlu, nid yw'n glir sut y bydd hyfforddiant staff yn cael ei gynnal a'i ddatblygu ymhellach dros amser.

*I gefnogi hyn, mae'r Cyngor wedi drafftio'r tabl canlynol i amlinellu'r profiad, yr wybodaeth a'r sgiliau y byddid yn eu disgwyl gan y staff perthnasol cyn eu penodi a'r hyn y gellir ei gyrchu ar ôl eu penodi. Fodd bynnag, byddai asesiad yn cael ei wneud yn dilyn pob penodiad a byddai pecyn hyfforddi pwrpasol yn cael ei weithredu a'i gefnogi gan y Cyngor ac Ysgol Bryn Derw.*

<b>Rôl</b>	<b>Athro/Athrawes</b>	<b>Cynorthwy-ydd Dysgu</b>
Profiad/hyfforddiant cyn apwyntio	Yn addysgu disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig Profiad o addysgu'r un disgyblion drwy'r dydd yn yr un lle (h.y. profiad arddull addysgu cynradd neu sylfaen NID profiad arddull addysgu pwnc uwchradd) Yn defnyddio dull TEACCH – 'Addysgu (Teaching), Ehangu (Expanding), Gwerthfawrogi	Yn gweithio mewn ystafell ddosbarth gyda disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig Gwybodaeth am ddulliau TEACCH

	(Appreciating), Cydweithredu a Chydweithio (Collaborating and Cooperating), Cyfannol (Holistic)" Dealltwriaeth o anghenion synhwyrdd sy'n gysylltiedig ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig	
Profiad/hyfforddiant ar ôl apwyntiad	Team Teach PECS/Arwyddo Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma / Thrive Ymlyniad/profiad niweidiol yn ystod plentyndod Cyfle i arsylwi mewn lleoliad arbenigol arall	Team Teach PECS/Arwyddo Ymlyniad/profiad niweidiol yn ystod plentyndod Hyfforddiant anghenion synhwyrdd Cyfle i arsylwi mewn lleoliad arbenigol arall

Gofynnwyd hefyd am ragor o eglurder ynghylch y therapiau a fyddai ar gael i'r dysgwyr yn y Ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig arfaethedig.

*Gall y Cyngor gadarnhau y bydd cysylltiadau partneriaeth yn cael eu datblygu rhwng Ysgol Uwchradd Llanwern ac Ysgol Bryn Derw i rannu gwybodaeth a phrofiad ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd therapi – megis cyfarfodydd ar y cyd â darparwyr therapi. Byddai staff Ysgol Uwchradd Llanwern hefyd yn cael y cyfle i arsylwi ar y gwaith o ddarparu therapiau mewnol gan Ysgol Bryn Derw ac i fodelu'r rhain gyda chymorth allgymorth. Nid oes unrhyw ddisgwyliad y bydd disgyblion yn cael eu cludo i gael mynediad at therapiau, yn hytrach bydd Canolfan Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig Llanwern yn datblygu ystod o therapiau priodol y gallant eu darparu ar y safle gyda chefnogaeth Ysgol Bryn Derw yn dibynnu ar anghenion y disgyblion.*

Yn gysylltiedig â hyn, nododd Estyn bod diffyg gwybodaeth o fewn y cynnig ynghylch sut y bydd rhyngweithio rhwng disgyblion o fewn y ddarpariaeth arbenigol a'r ysgol ehangach yn cael ei reoli, a ph'un ai nod y ddarpariaeth yw ailintegreiddio'r disgyblion hyn i addysg brif ffrwd.

*Gall y Cyngor gadarnhau y bydd y disgyblion y Ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn rhan annatod o boblogaeth yr ysgol a bydd y disgyblion yn defnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael i holl ddisgyblion yr ysgol. Bydd y disgyblion o fewn y Ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn cael eu cefnogi'n ofalus a phan fo'n bosibl ac yn briodol, byddant yn cael mynediad i wersi prif ffrwd gyda chymorth oedolion o'r Ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Bydd hyn yn cael ei gydgysylltu gan athro'r Ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig a'r aelod o'r Uwch-dîm arwain sy'n goruchwyllo'r ddarpariaeth. Y nod fydd cynyddu'r raddol yr amser y mae'r disgyblion yn mynychu'r brif ffrwd pan fo'n briodol, yn seiliedig ar anghenion, cryfderau a diddordebau disgyblion unigol. Fodd bynnag, gall cymhlethdodau rhai o anghenion y disgyblion olygu mai mynediad cyfyngedig sydd ganddynt i wersi prif ffrwd i ddechrau; byddai hyn yn cael ei fonitro a'i asesu'n barhaus ar sail disgybl unigol a'r mynediad yn cael ei gynyddu pan fo hynny'n briodol. Bydd mynediad i ardaloedd eraill o'r ysgol megis ardal y ffreutur yn cael ei drefnu'n ofalus er mwyn osgoi amseroedd arbennig o*

*swnllyd. Er enghraifft, pe bai angen, byddai disgyblion y Ganolfan Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn gallu mynd i'r ffreutur yn gynnar er mwyn osgoi'r sŵn a grwpiau mawr.*

Yn olaf, cwestiynodd Estyn hyfywedd ariannol y cynnig yn y tymor byr i ganolig.

*Mewn ymateb, gall y Cyngor gadarnhau bod y fformiwla gyllido ar gyfer canolfannau adnoddau dysgu sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd yn ceisio darparu digon o gyllid ychwanegol yn ogystal â chyllid prif ffrwd uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl. Mae hyn yn adlewyrchu'r gost ychwanegol o ddarparu lefelau uwch o addysgu a chymorth nad yw'n addysgu.*

*Dyrennir cyllid uned i ysgolion o dan Adran F y fformiwla ariannu ysgolion. Mae'r cyllid yn cael ei nodi'n glir yn Nhabl 3 Cyfran Cyllideb Unigol yr ysgol yn yr adran Anghenion Addysgu Arbennig (AAA) / Cyllid Anghenion Cymdeithasol yn rhinwedd bod yn Uned AAA. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu bob blwyddyn tra bod y Canolfannau Adnoddau Dysgu ar waith ac yn weithredol ac yn cael ei ymgodi ar gyfer y blynyddoedd dilynol er mwyn cymryd unrhyw newidiadau cyflog a gwerth uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl i ystyriaeth.*

*Gan fod y Canolfannau Adnoddau Dysgu newydd yn agor yn raddol, bydd yr ysgol yn derbyn cyllid o'r diwrnod cyntaf y disgwylir i'r Ganolfan Adnoddau Dysgu newydd agor. Bydd yr elfen ariannu a arweinir gan nifer y lleoedd yn gymesur â nifer y misoedd y mae'r uned yn debygol o fod ar agor yn ystod y flwyddyn ariannol lawn a nifer y lleoedd sydd ar gael. Bydd ysgolion hefyd yn derbyn cyllid uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl mewn perthynas â'r nifer gwirioneddol o ddisgyblion sydd ar gofrestr yr uned, yn gymesur â nifer y misoedd y mae'r disgybl yn debygol o fod yn yr uned yn ystod blwyddyn ariannol lawn.*


## **Effaith canfyddedig y cynnig ar y Gymraeg**

Roedd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad hefyd yn gofyn i ymatebwyr roi eu barn ar effaith debygol y cynnig ar y Gymraeg.

'A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?'



A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?



■ Cadarnhaol ■ Dim effaith ■ Negyddol ■ Dim ateb

Atebodd 96 allan o 97 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Atebodd 24 allan o 97 o ymatebwyr (25%) y byddai'r effaith yn un 'Cadarnhaol'. Atebodd 62 o ymatebwyr (64%) y byddai 'Dim effaith', ac atebodd 10 ymatebydd (10%) y byddai'r effaith yn 'Negyddol', er o'r sylwadau a ddarparwyd mae'n ymddangos bod y cwestiwn o bosibl wedi'i gamddeall. Awgrymodd un ymatebwr y dylid sefydlu'r ddarpariaeth arfaethedig yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed er mwyn cefnogi disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor yn nodi ymrwymiad i agor Canolfan Adnoddau Dysgu cynradd cyfrwng Cymraeg a bydd datblygu Canolfan Adnoddau Dysgu cynradd yn effeithio ar y ddarpariaeth uwchradd, felly bydd angen ystyried y ddarpariaeth ADY arbenigol yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Ganolfan Adnoddau Dysgu'r sector cynradd. Bydd datblygu Canolfan Adnoddau Dysgu uwchradd yn cael ei adolygu'n flynyddol yng ngoleuni dadansoddiad o dueddiadau data yn dilyn agor y Ganolfan Adnoddau Dysgu cynradd. Bydd hyn yn sicrhau y gellir diwallu anghenion ADY disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd mewn modd amserol.

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?' Atebodd 16 o ymatebwyr 'Ydw'. Fodd bynnag, fel gyda'r cwestiwn blaenorol, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi camddeall y cwestiwn.

## Asesiad o'r Cynnig

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig (opsiwn 1) yw'r ateb gorau a mwyaf cyraeddadwy i ddarparu lleoedd uwchradd arbenigol ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig yng Nghasnewydd.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori daeth yn amlwg bod canfyddiad ymhlith rhai staff a rhieni disgyblion sy'n mynychu darpariaeth Canolfan Dysgu Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Llanwern y byddai'r cynnig yn gweld y ddarpariaeth bresennol yn cau, ac y byddai'r disgyblion a gefnogir ar hyn o bryd drwy'r ddarpariaeth hon yn cael eu hintegreiddio i ddsbarthiadau prif ffrwd mawr. Er nad yw hyn yn wir, gallai'r dogfennau ymgynghori fod

wedi gwneud hyn yn gliriach ac fe ddylid fod wedi gwneud hynny, gan fod y camsyniad hwn wedi achosi pryder ymhlith rhanddeiliaid ac wedi effeithio'n andwyol ar y sesiynau galw heibio.

Roedd rhanddeiliaid â chysylltiadau â'r Ganolfan Dysgu Arbenigol bresennol yn yr ysgol hefyd yn rhwystredig bod yr awdurdod lleol yn ymgynghori ar y cynnig hwn heb gynnwys ateb ar gyfer adleoli'r Ganolfan Dysgu Arbenigol o fewn y cynnig.

Mae swyddogion y Cyngor yn hyderus y gellir symud darpariaeth y Ganolfan Dysgu Arbenigol bresennol mewn modd priodol a diogel i ran arall o adeilad yr ysgol. Er y gallai'r adleoli hwn arwain at bryder a straen i rai disgyblion yn y tymor byr, ystyrir bod manteision y cynnig yn drech na'r anfanteision posibl.

Nododd llywodraethwr ysgol ac Estyn fod y cynnig wedi methu â darparu rhai manylion a fyddai'n galluogi asesiad clir o'r cynnig. Derbynnir y feirniadaeth hon, ac felly mae rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad hwn mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd.

Yn dilyn ystyriaeth briodol, mae'r cynnig sef opsiwn 1 yn dal i gael ei ffafrio dros yr opsiynau eraill sydd ar gael sef opsiynau 2, 3 a 4:

Opsiwn 1 – Bwrw ymlaen â'r cynnig ar gyfer rhoi canolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig ar waith yn raddol yn Ysgol Uwchradd Llanwern dros bum mlynedd. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i bedwar dysgwr bob blwyddyn yn nwyrain y ddinas y byddant yn medru pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Byddai'r ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn darparu addysg addas i ddisgyblion, yn diwallu anghenion cymhleth y disgyblion ac ar yr un pryd yn cynnig ehangu darpariaeth anhwylderau'r sbectrwm awtistig ar draws y ddinas. Byddai angen ariannu'r ddarpariaeth o gyllideb yr ysgol unigol drwy gyfrwng fformiwla benodedig. Mae'r fformiwla'n ceisio darparu digon o arian ychwanegol ar ben cyllid uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl prif ffrwd, sy'n adlewyrchu'r gost ychwanegol o ddarparu lefelau uwch o gymorth addysgu a chymorth heb fod yn addysgu yn y ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Bydd y ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn lleihau'r angen am leoliadau y tu hwn i ffiniau'r sir sydd â chost flynyddol o tua £42,000 fesul lleoliad (heb gynnwys cludiant).

Mae'r cynnig yn dal i gael ei ffafrio dros yr opsiynau eraill sydd ar gael:

Opsiwn 2 – Bwrw ymlaen â'r cynnig ar gyfer canolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn Ysgol Uwchradd Llanwern, ond sefydlu'r ddarpariaeth ar gyfer 20 lle ar unwaith. Bydd hyn yn creu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion hŷn ym mlynnyddoedd 8-11 a gallai alluogi disgyblion i drosglwyddo i mewn o ysgolion eraill neu leoliadau y tu hwnt i ffiniau'r sir. Fodd bynnag, gallai hyn beryglu diogelwch y pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 sy'n cael ei ddarparu yn opsiwn 1. Byddai'r ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn darparu addysg addas i ddisgyblion, gan ddiwallu anghenion cymhleth y disgyblion ac ar yr un pryd yn cynnig ehangu darpariaeth anhwylderau'r sbectrwm awtistig ar draws y ddinas. Byddai angen ariannu'r ddarpariaeth o gyllideb yr ysgol unigol drwy gyfrwng fformiwla benodedig. Bydd y ganolfan anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn lleihau'r angen am leoliadau y tu hwnt i ffiniau'r sir sydd â chost o tua £42,000 fesul lleoliad (heb gynnwys cludiant).



**Opsiwn 3** – Cyflwyno cynnig i sefydlu canolfan ADY ar gyfer disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig mewn ysgol uwchradd wahanol. Y bwriad yw sefydlu arlwy newydd yn nwyrain y ddinas i adlewyrchu'r hyn a ddarperir yn Ysgol John Frost yng ngorllewin y ddinas. Mae Ysgol Uwchradd Llanwern wedi'i nodi fel y lleoliad mwyaf addas ar gyfer hyn, oherwydd bod pob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg arall yng Nghasnewydd yn llawn. Mae gan Ysgol Uwchradd Llanwern eisoës ofod priodol wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer y ganolfan newydd hon, gan fod darpariaeth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol wedi'i leoli yno'n flaenorol. Bydd hyn yn galluogi bod ardal ddiogel sydd ar wahân i adeilad yr ysgol yn medru cael ei darparu ar gyfer y disgyblion hyn, gyda mynedfa ar wahân briodol a chyfleoedd i neilltuo / gweithio mewn grŵp bach yn y gofodau dosbarth sydd ar gael, yn ogystal â datblygu sgiliau byw'n annibynnol yn yr ardaloedd cegin.

**Opsiwn 4** – Bod pob disgybl yn cael ei symud i ddarpariaeth y tu hwnt i ffiniau'r sir. Cost gyfartalog pob lle y tu hwnt i ffiniau'r sir yw £42,000 ond mae diffyg lleoedd mewn ysgolion arbenigol ar draws y rhanbarth. Byddai hyn yn gofyn canfod lleoliadau gan ddarparwyr annibynnol a byddai'r lleoliadau hyn yn fwy na'r gost gyfartalog o £42,000 y flwyddyn. Nid yw'r costau'n cynnwys cost cludiant.

## Argymhellion

Argymhellir ceisio caniatâd i symud y cynnig hwn ymlaen drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynnyddoedd Cynnar a'i lywio trwy broses ddemocrataidd gytunedig y Cyngor.

---

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) cyhoeddir yr adroddiad hwn yn electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn [www.newport.gov.uk/ad-drefnuysgolion](http://www.newport.gov.uk/ad-drefnuysgolion)

I ofyn am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon, cysylltwch â Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu anfonwch e-bost at [school.reorg@newport.gov.uk](mailto:school.reorg@newport.gov.uk)

## Atodiad A – Cwestiynau Cyffredin a gyhoeddwyd ar Wefan Cyngor Dinas Casnewydd

- Beth fydd yn digwydd i'r ddarpariaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (LIIC) bresennol yn Ysgol Uwchradd Llanwern?

Y cynnig yw sefydlu canolfan Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) arbenigol newydd yn ychwanegol at y cyfleuster LIIC sy'n cael ei ddarparu gan yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai'r ardal arfaethedig o fewn Ysgol Uwchradd Llanwern ar gyfer y Ganolfan ASA yn golygu ail-leoli'r LIIC i ardal arall o'r ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol a'r Ysgol ar hyn o bryd yn ystyried opsiynau ar gyfer lleoli'r ddarpariaeth hon i sicrhau bod yr ysgol yn gallu parhau i ddiwallu anghenion dysgwyr.

- Pam canolbwyntio ar ASA ac nid Anghenion Dysgu Ychwanegol eraill (ADY)?

Mae dadansoddiad o ddata Awdurdodau Lleol dros y 5 mlynedd diwethaf wedi dangos poblogaeth ASA gynyddol gymhleth sydd hefyd yn cael ei hadlewyrchu ym mhrofiad swyddogion lleol. O'r herwydd, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwmo i sicrhau bod y ddarpariaeth ASA o fewn y ddinas yn adlewyrchu'r galw cynyddol er mwyn diwallu anghenion y mwyafrif o ddisgyblion o fewn y Ddinas yn briodol, heb y gofyniad am leoliadau Allan o'r Sir. Mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu dadansoddiad tueddiadau'r data yn barhaus i lywio penderfyniadau'r dyfodol o ran darpariaeth ADY o fewn Casnewydd.

- Pam Ysgol Uwchradd Llan-wern? A pham dim ond 4 lle bob blwyddyn?

Mae Ysgol Uwchradd Llanwern wedi cael ei chynnig i gynnal y ganolfan ASA gan fod pob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg arall yng Nghasnewydd yn llawn. Mae capasiti'r ganolfan ASA a gynigir wedi'i gapio ar 20 oherwydd faint o le sydd ar gael yn yr ysgol. Y cynnig yw agor y ganolfan i ddechrau gyda 4 lleoliad blwyddyn 7 a fydd yn cynyddu'n raddol dros gyfnod o 5 mlynedd tan i bob un o'r 20 lleoliad gael eu sefydlu. Bydd hyn yn cynnig sicrwydd pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn Nwyrain y ddinas ar gyfer 4 dysgwr bob blwyddyn. Mae darpariaeth ASA bresennol yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Uwchradd John Frost hefyd yn ddarpariaeth 20 lleoliad (er bod 25 o ddisgyblion yno ar hyn o bryd). Os gweithredir cynnig yr Awdurdod Lleol, bydd Canolfan ASA 20 lleoliad yn Ysgol Uwchradd John Frost ac Ysgol Uwchradd Llanwern yn y drefn honno. Bydd hyn yn sicrhau bod darpariaeth deg ar ochr Ddwyreiniol a Gorllewin y Ddinas. Bydd pob lleoliad yn cynnig 4 lleoliad y flwyddyn (8 i gyd ar draws y Ddinas bob blwyddyn).

- Pam mae'r Awdurdod Lleol yn targedu dysgwyr ASA gallu isel cymhleth yn hytrach na dysgwyr ASA sy'n gweithredu ar lefel uchel?

Mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu ei ddarpariaeth ADY yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob anghenion pob dysgwr yn cael ei ddiwallu. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod anghysondeb ar hyn o bryd rhwng y ddarpariaeth ADY Cynradd ac Uwchradd ac mae'r Ganolfan ASA arfaethedig yn Ysgol Uwchradd Llanwern yn gydnabyddiaeth o hynny ac yn gam tuag at sicrhau bod darpariaeth uwchradd ehangach ar gael. Mae Ysgolion Arbennig yr Awdurdod Lleol (Maes Ebwy ac Ysgol Bryn Derw) bellach yn darparu ar gyfer mwy o ddisgyblion ag anghenion cymhleth iawn, gan gynnwys rhai ag anawsterau dysgu lluosog dwys. O'r herwydd, bydd trothwyon darpariaethau fel Canolfan ASA Ysgol John Frost, Canolfan Datblygiad Dysgu Ysgol (CDD) Sain Silian a chanolfan ASA arfaethedig Ysgol Uwchradd Llanwern yn derbyn disgyblion â phroffil mwy aciwt a chymhleth nag yn y

blynyddoedd blaenorol. Mae dadansoddiad tueddiadau data'r Awdurdod Lleol wedi nodi bod bwch cyfredol yn y ddarpariaeth yng Nghasnewydd ar gyfer dysgwyr ag ASA cymhleth sydd hefyd yn cael anawsterau dysgu.

Er mwyn cynnig cefnogaeth i ddysgwyr ASA sy'n gweithredu ar lefel uchel, mae'r Awdurdod Lleol yn buddsoddi mewn hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff ysgolion er mwyn uwchsgilio a sicrhau bod pob lleoliad yn cynnig cefnogaeth briodol i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gefnogaeth gan y Gwasanaeth Cyngori i ysgolion ar Seicoleg Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gyfer ystod eang o ymyriadau. Mae hyn yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) lle mae disgyblion yn profi lefelau uchel o bryder ac Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol (EBSA), i sicrhau nad yw disgyblion yn datgysylltu â'u lleoliad ysgol ac yn cael eu gwerthfawrogi o fewn amgylchedd ysgol gynhwysol.

## Atodiad B –Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

### Sefydlu canolfan ADY â 20 lle yn Ysgol Uwchradd Llan-wern i ddisgyblion gydag ASA o fis Medi 2023 ymlaen

Mae eich barn chi'n bwysig. Rhannwch eich sylwadau â ni am y cynnig trwy lenwi'r holiadur hwn. **Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw canol nos, 6 Ionawr 2023.** Ni fydd ymatebion negyddol a wneir i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig; byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau negyddol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

#### 1) A ydych chi'n cefnogi'r cynnig i:

**Sefydlu canolfan ADY â 20 lle yn Ysgol Uwchradd Llan-wern i ddisgyblion gydag ASA o fis Medi 2023 ymlaen**

Ydw  Nac ydw  Yn rhannol

Defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu i esbonio pa ran o'r cynnig nad ydych yn ei chefnogi

#### 2) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Cadarnhaol  Negyddol  Dim effaith

#### 3) Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?

#### 4) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ydw  Nac ydw

**Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gofalwr plentyn sy'n mynychu ysgol feithrin leol)**

--

<b>Dewiswch eich grŵp Ethnig</b>			
Gwyn Prydeinig		Asiaidd-Bangladeshaid	
Gwyn Gwyddelig		Asiaidd-Indiaidd	
Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch): _____		Asiaidd-Pacistanaid	
		Unrhyw gefndir Asiaidd arall	
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig		Du Caribiaidd	
Gwyn ac Asiaidd		Du Affricanaid	
Gwyn a Du Affricanaid		Unrhyw gefndir Du arall	
Gwyn a Du Caribiaidd		Arabaid	
Unrhyw gefndir Cymysg arall (nodwch): _____		Tsieineaid	
		Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch): _____	
Asiaidd-Bangladeshaid		Mae'n well gennyf beidio â dweud	
Asiaidd-Indiaidd			
Asiaidd-Pacistanaid			

<b>Y Gymraeg</b>			
<b>A ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?</b>			
Ydw		Nac ydw	Mae'n well gennyf beidio â dweud

<b>Cyfrifoldebau Gofalu</b>			
<b>A ydych chi'n gofalu am blant oedran ysgol?</b>			
Ydw		Nac ydw	Mae'n well gennyf beidio â dweud
<b>A ydych chi'n gofalu am blant oedran cyn-ysgol?</b>			
Ydw		Nac ydy	Mae'n well gennyf beidio â dweud
<b>A ydych chi'n gofalu am oedolyn dibynnol neu blentyn sy'n hŷn nag oedran ysgol?</b>			
Ydw		Nac ydw	Mae'n well gennyf beidio â dweud

Os hoffech gael eich hysbysu pan gyhoeddir yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, nodwch eich manylion cyswllt isod:

E-bost: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad post: \_\_\_\_\_

## Atodiad C – Ymateb Estyn

Ymateb Estyn i'r cynnig i sefydlu canolfan â 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Uwchradd Llanwern i ddisgyblion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) o fis Medi 2023

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

### Cyflwyniad

Mae'r cynnig ymgynghori hwn gan Gyngor Dinas Casnewydd. Y cynnig yw sefydlu canolfan â 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Uwchradd Llanwern i ddisgyblion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) o fis Medi 2023.

### Crynodeb / Casgliad

Rydym yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal, o leiaf.

### Disgrifiadau a manteision

At ei gilydd, mae llawer o rinweddau i'r cynnig ad-drefnu ysgolion "i sefydlu canolfan arbenigol â 20 lle i ddisgyblion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Uwchradd Llanwern o fis Medi 2023". Fodd bynnag, mae yna nifer o feysydd allweddol yn gysylltiedig â'recwiatio, hyfforddi a goruchwylio staff, lle gellid cryfhau'r cynnig.

Mae data wedi'i ddarparu gan yr awdurdod lleol yn dangos bod galw clir am ddarpariaeth ASA arbenigol yng Nghasnewydd, yn enwedig o Flwyddyn 7 ymlaen. Mae'r ddarpariaeth arbenigol bresennol o fewn yr awdurdod lleol wedi cyrraedd ei chapasiti (neu'n rhagori ar y capasiti presennol) ac mae model twf y cynnig, sef pum lle newydd ym Mlwyddyn 7 am bedair blynedd, yn gyflawnadwy ac wedi cael ei ystyried yn dda.

Mae nifer o fanteision i leoli'r ddarpariaeth newydd arfaethedig yn Ysgol Uwchradd Llanwern. Yn gyntaf, byddai'n arwain at ddarpariaeth deg yn nwyrain a gorllewin y ddinas fel bod disgyblion yn gallu mynychu ysgol sy'n fwy lleol i'w cyfeiriad cartref, gan felly leihau costau cludiant. Yn ail, gellid sefydlu'r ddarpariaeth newydd arfaethedig mewn gofod wedi'i ddylunio'n arbennig a oedd yn cynnal darpariaeth ar gyfer Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn y gorffennol. Mae'r adeilad hwn yn adeilad gradd A (mewn cyflwr da), mae ganddo fynedfeydd ar wahân, mae wedi'i amgáu yn ddiogel, a byddai ond angen gwneud mân addasiadau er mwyn iddo fod yn addas. Mae ganddo nifer addas o ystafelloedd dosbarth (4), cyfleusterau bwyta a cheginau, toiledau dynodedig, ardal chwarae yn yr awyr agored, ystafell synhwyraidd, a gofod addas ar gyfer cludo i ollwng a chodi ar unwaith y tu allan. Yn olaf, mae gan Ysgol Uwchradd Llanwern y capasiti i gynnal darpariaeth o'r fath gan ei bod wedi gweithredu o dan ei chapasiti mesuredig am sawl blwyddyn.

Pan fydd yr ysgol yn gweithredu yn unol â'i chapasiti, mae budd ariannol sylweddol i sefydlu'r ddarpariaeth newydd hon, ac mae modelu ariannol trosfwaol y cynnig yn gadarn.

Nid yw'r cynnig yn amlinellu'n ddigon manwl sut bydd yr ysgol yn cael ei chynorthwyo gan yr awdurdod lleol i weithredu'r ddarpariaeth ASA newydd yn effeithiol. Er bod Ysgol Uwchradd Llanwern wedi cynnal darpariaeth ymddygiadol arbenigol yn y gorffennol, hwn fyddai'r tro cyntaf i'r ysgol gynnal darpariaeth ASA benodol, a bydd angen lefel o gymorth o'r herwydd. Mae'n datgan y bydd yr ysgol yn derbyn "cymorth a hyfforddiant arbenigol ychwanegol gan y tîm yn Ysgol Bryn Derw". Fodd bynnag, nid yw'r datganiad hwn yn meintoli lefel yr hyfforddiant a'r cymorth y bydd yr ysgol yn eu cael yn ddigonol.

Nid yw'r cynnig yn cynnwys digon o wybodaeth am y strwythur staffio ar gyfer y ddarpariaeth, yn enwedig pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r ddarpariaeth o ddydd i ddydd. Er bod y cynnig yn nodi'r angen i recriwtio "staff â chymwysterau priodol" a bydd yn cael "ei gefnogi gan wasanaethau Addysg ac Adnoddau Dynol Canolog yr Awdurdod Lleol" wrth wneud hyn, nid yw'r trefniadau hyn yn glir. Nid yw'r cynnig yn nodi nifer y staff fydd yn cael eu penodi, nac unrhyw fanylion ynglŷn â'r rolau penodol y bydd y staff hyn yn eu cyflawni. Nid oes unrhyw wybodaeth am y gymhareb staff debygol ar gyfer y ddarpariaeth, naill ai o ran athrawon i gynorthwywyr addysgu, na disgyblion i oedolion.

Mae'r cynnig yn cyfeirio at hyfforddiant staff, adeg penodi neu sefydlu yn bennaf, ond nid yw'n glir sut bydd hyfforddiant staff yn cael ei gynnal a'i ddatblygu dros gyfnod.

Mae'r cynnig yn dangos y bydd sawl therapi "yn cael eu datblygu a'u hamserlennu yn Ysgol Bryn Derw". Ni ddangosir p'un a yw hyn yn drefniant tymor byr hyd nes bydd y ddarpariaeth newydd wedi'i sefydlu'n dda, beth yw'r therapiau hyn, a ph'un a yw hon yn bartneriaeth neu'n drefniant hierarchaidd? Mae'r cynnig yn gadael cwestiwn ynglŷn â pham na fydd y ddarpariaeth newydd arfaethedig yn gallu cyflenwi'r therapiau hyn os ydynt yn hanfodol i ddiwallu anghenion pob disgybl? Mae'r agwedd hon ar y cynnig yn cyflwyno heriau logistaidd gan fod y safleoedd hyn 5 milltir ar wahân ac ar ochrau gwahanol y ddinas. O'r herwydd, mae goblygiadau amser sylweddol wrth deithio rhyngddynt, yn ogystal â'r angen am gludiant dynodedig, staffio ac asesiadau risg cysylltiedig. Nid oes unrhyw wybodaeth yn y cynnig ynglŷn â sut yr eir i'r afael â'r heriau hyn, a'u goresgyn.

Nid oes unrhyw wybodaeth yn y cynnig ynglŷn â sut bydd rhyngweithio rhwng disgyblion o fewn y ddarpariaeth arbenigol a'r ysgol ehangach yn cael ei reoli, neu a fydd cyfleoedd buddiol felly yn cael eu cynnig i'r disgyblion hyn. Hefyd, nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch p'un ai nod y ddarpariaeth yw ailintegreiddio'r disgyblion hyn i addysg brif ffrwd.

Nid yw'n ddigon clir o'r cynnig fod y ddarpariaeth newydd arfaethedig yn hyfyw yn ariannol yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae'r cynnig yn nodi mai'r gost flynyddol yw tua £500,000 (neu £25,000 y disgybl). Fodd bynnag, mae'n datgan y bydd y ddarpariaeth newydd arfaethedig "yn cael ei hariannu trwy gyfran cyllideb ysgol unigol yr ysgol, wedi'i dosbarthu gan y cyngor yn unol â'r fformiwla cyllido rhagnodedig". Nid yw hyn yn ei gwneud yn glir y bydd y gyllideb yn cael ei dyrannu i'r ysgol, nac y bydd y gyllideb yn cael ei chlustnodi i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cynnal lefel ddigonol o ansawdd.

Mae'r cynigiwr yn dangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n cyfeirio yn y cynlluniau at ddatblygu darpariaeth ADY yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Nant Gwenlli a bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i agor darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd newydd yng Ngwent Is-y-Coed. Byddai hyn yn cael ei adolygu bob blwyddyn yn sgil y dadansoddiad o dueddiadau data o'r sector cynradd.